| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Mehefin 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Jason McLellan: Arweinydd y Cyngor<br>Tony Ward: Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones: Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Russell Vaughan |
| **Teitl** | Marchnad y Frenhines - caffael gweithredwr |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu Contract i'r cyflenwr a ffefrir i gynnal Marchnad y Frenhines.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad i ddyfarnu Contract i'r cyflenwr a ffefrir i gynnal Marchnad y Frenhines yn seiliedig ar argymhellion y Bwrdd Prosiect yn unol â'r Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Contract (Atodiad 1).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu Contract i'r cyflenwr a ffefrir i gynnal Marchnad y Frenhines yn seiliedig ar argymhellion y Bwrdd Prosiect a manylion yr Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Contract (Atodiad 1).

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n adeiladu Cam 1 safle Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl, sef y neuadd fwyd/marchnad newydd a gofod hyblyg i gynnal digwyddiadau. Nid oes gan y Cyngor y gallu na'r wybodaeth i gynnal cyfleuster o'r math hwn felly mae angen gweithredwr i gynnal y cyfleuster ar ei ran.

4.2. Cafodd Penderfyniad Dirprwyedig ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2022 (Atodiad 3) i ddechrau'r broses gaffael i benodi gweithredwr i gynnal a rheoli Marchnad y Frenhines pan fydd wedi'i ddatblygu. Cyhoeddwyd hysbyseb ar GwerthwchiGymru ym mis Tachwedd 2022 am bum wythnos, ond yn anffodus, ni chafwyd unrhyw geisiadau.

4.3. Gofynnwyd am adborth gan y pedwar cwmni ar ddeg a ddangosodd ddiddordeb yn y cyfle, un ai drwy GwerthwchiGymru (PROACTIS) neu'r microsafle Adfywio'r Rhyl, a lluniwyd gwerthusiad o ddewisiadau. Penderfynodd y Bwrdd Prosiect fynd allan i hysbysebu eto, ond gyda dull caffael dau gam y tro hwn.

4.4. Gofynnwyd i ddarpar gyflenwyr fynegi diddordeb, ac yna byddai'r holl wybodaeth dendro berthnasol yn cael ei anfon atynt. Yn dilyn y broses werthuso, dewiswyd cyflenwr a ffefrir a chafodd ei argymell gan y Bwrdd Prosiect (Atodiad 4). Mae'r cyflenwr a ffefrir bellach wedi bodloni gwiriadau trylwyr a diwydrwydd dyladwy'r Cyngor (Atodiad 5).

4.5. Mae'r Bwrdd Prosiect yn awr yn argymell bod y Cyngor yn penodi cyflenwr a ffefrir ac yn gweithio gyda nhw i orffen y gwaith ar Farchnad y Frenhines ac i gytuno ar strategaeth ac amserlen i agor i'r cyhoedd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y penderfyniad yn cyfrannu at gyflawni'r Flaenoriaeth Gorfforaethol i greu Sir Ddinbych ffyniannus drwy:

- Gefnogi twf economaidd; a
- Datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn yn y broses, mae tîm prosiect trawsadrannol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd iawn i sicrhau bod pob adran berthnasol a allai gael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd yn y dyfodol yn llwyr ymwybodol ac yn rhan o'r broses, pwy bynnag a benodir. Maent yn cynnwys Rheoli Contractau, Caffael, Cyfreithiol, Datblygiad Economaidd a Busnes a Ffyniant.

6.2. Roedd £30,000 ar gael i helpu i ariannu unrhyw ymgynghorwyr, marchnata neu hysbysebu oedd ei angen, ond y brif gost oedd amser y swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Prif gasgliadau'r asesiad yw y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r nodau lles, trwy ddarparu datblygiad carbon isel, sy'n gwbl hygyrch, a fydd yn gwella cyfathrebu a'r isadeiledd cludiant mewn lleoliad a fydd yn galluogi preswylwyr i gael gafael ar ystod ehangach o wasanaethau ar droed, neu drwy fynd ar feiciau. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi drwy wella bywiogrwydd canol y dref, a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau adeiladu a hamdden. Bydd yn gwella pa mor atyniadol yw'r ardal drwy gael gwared ag eiddo adfeiliedig a gwella diogelwch cymunedol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd gwaith ymgynghori helaeth ar y prosiect dros y 4 blynedd ddiwethaf, yn cynnwys gyda'r Cabinet, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl a Chyngor Tref y Rhyl.

8.2. Mae bwrdd prosiect yn goruchwylio prosiect Adeiladau'r Frenhines, sy'n cynnwys yr Arweinydd, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, Uwch Swyddogion a chynrychiolwyr o LlC. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â LlC hefyd ac mae tîm Prosiect aml-adrannol sy'n cyfarfod yn benodol i fynd â'r gwaith o gaffael gweithredwr yn ei flaen.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Croesewir y ffaith bod cyflenwr a ffefrir wedi'i nodi ar gyfer cynnal Marchnad y Frenhines, sydd wedi bod yn ddatblygiad a phrosiect adfywio allweddol i'r

Cyngor ers blynyddoedd. Mae'r broses wedi bod yn un gynhwysfawr ac mae wedi dilyn cyngor cyfreithiol, caffael ac ariannol. Mae'r ffordd ymlaen arfaethedig yn gyfle cyffrous gyda'r risg lleiaf bosibl i gyllid y Cyngor. Cefnogir yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os na wneir penderfyniad i gymeradwyo dyfarnu'r contract i'r cyflenwr a ffefrir, bydd y Cyngor yn cael eu gadael heb weithredwr ar gyfer datblygiad neuadd fwyd a marchnad newydd sbon mewn lleoliad amlwg yng Nghanol Tref y Rhyl a'r promenâd.

10.2. Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl gostau parhaus yn gysylltiedig â chyfleustodau, trethi a diogelwch, ymhlith eraill, heb ddim profiad o gynnal cyfleuster o'r fath. Ni chlustnodwyd unrhyw refeniw ar gyfer hyn yng nghyllideb y Cyngor.

10.3. Er y bydd cyfnod rhwng dyfarnu'r contract ac agor y cyfleuster, bydd cyfathrebu'n cael ei reoli'n ofalus ar y cyd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r amserlen ac er mwyn cynyddu'r cyffro.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad.

11.1. Pŵer cyffredinol cymhwysedd

11.2. Adran 5.5: Rheolau Gweithdrefn Contractau Cyngor Sir Ddinbych